YSGOL BRYNREFAIL

Gweithdy Radio C2

Adroddiad gan Geraint Jones (Blwyddyn 11)

Ar ddydd Gwener, 27ain Chwefror, daeth taith ysgolion C2 i Ysgol Brynrefail. Dechreuodd y diwrnod gyda phawb o C2 yn cyflwyno eu hunain a beth oeddynt yn ei wneud yn y cyfryngau a sut roedd hyn yn helpu i greu'r sioe. Y person cyfarwydd i ni i gyd oedd y gyflwynwraig boblogaidd Magi Dodd. Yna cawsom ein rhannu i grwpiau o 8 ac yna rhoddwyd rôl wahanol i bawb. Cefais fy newis i fod yn gyflwynydd am fod gen i ddigon o geg. Roedd 3 O.B. oedd yn mynd rownd yr Ysgol i gael barn wahanol a'r ddau lais oedd yn cyflwyno'r sioe, sef fi a Llywelyn o flwyddyn 12. Roedd dau dechnegydd yn edrych ar ôl y sioe i wneud yn siŵr fod y meiciau cywir ymlaen , ar yr amser cywir ar gyfer y sioe.Wedyn roedd y cynhyrchydd, oedd yn edrych ar ôl y sioe, yn gwneud yn siŵr fod pawb yn gwneud eu gwaith. Cawsom 20 munud o sioe i gyd a chafodd pawb hwyl a dysgu llawer am y cyfryngau a sut i gynhyrchu sioe.

C2 Radio Workshop

Report by Geraint Jones (Year 11)

On Friday, 27th February, the C2 road show came to Ysgol Brynrefail. The day stared with everyone from C2 introducing themselves and their role in the media and how these roles helped create a show. The most well known of our visitors was, of course, the popular presenter Magi Dodd. We were separated into groups of 8 and individual roles were given to us. I was chosen as a presenter, probably because I've got a big mouth!!!
Three O.B.'s were going around the school talking with the public to get different opinions and the two voices presenting the show were Llywelyn from year 12 and of course me. Two technicians were overseeing the show to ensure that the correct mikes were on when they were needed. The producer, who looked after the show, ensured that everyone was performing their role. We produced a 20 minute show and everyone had fun whilst learning a great deal about the media and how to produce a show.